



CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Polisi Cefnogaeth Digwyddiadau i Gymrodyr CDdC

Mae “digwyddiadau â chefnogaeth” yn ddigwyddiadau y mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru (CDdC) yn eu cefnogi trwy gyfrwng cyllid, hyrwyddo'r digwyddiadau a thrwy gefnogaeth gan staff. Maen nhw'n wahanol i ddigwyddiadau sydd yn cael eu harwain gan CDdC neu'r rhai rydym yn eu creu gyda phartneriaid, fel academiâu neu gymdeithasau dysgedig eraill.

Pwrpas Cefnogaeth Digwyddiadau i Gymrodyr CDdC ydy cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Gymdeithas, a chyfrannu at ddatblygu a hyrwyddo'r sector ymchwil. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ni sefydlu neu gryfhau partneriaethau gyda sefydliadau perthnasol drwy gefnogi eu digwyddiadau.

1. Pwy sydd yn cael gwneud cais?

Mae'r gronfa hon ar agor i holl Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru, sydd fel arfer yn gwneud cais ar ran sefydliad sydd yn trefnu digwyddiad neu weithgaredd.

2. Beth fyddwn ni'n cefnogi?

Mewn egwyddor, gall CDdC gefnogi unrhyw fath o ddigwyddiad a fydd yn cyfrannu at hyrwyddo a datblygu ymchwil ac arloesedd yng Nghymru ac sy'n bodloni gofynion y polisi hwn.

Rydym yn chwilio am geisiadau ar gyfer digwyddiadau sy'n arloesol ac yn gynhwysol, ac sy'n estyn tu hwnt i ffiniau eich sefydliad i gynnwys ystod eang o bobl, ac sy'n gallu dangos effaith y tu hwnt i'w cylchoedd arferol. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i ddigwyddiadau a syniadau newydd sydd yn dangos yn glir eu bod yn cysylltu ac yn dod â unigolion at ei gilydd o amrywiaeth o gefndiroedd sefydliadol, gan gynnwys Gymrodyr, Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar ac unigolion eraill sy'n berthnasol i'ch cynlluniau. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn disgwyl i ddigwyddiadau fod ar agor i bobl o ystod o sectorau gwahanol. Ystyriwch sut y gellir gwella eich digwyddiad neu syniad drwy gynnwys sefydliadau, elusennau, prifysgolion neu grwpiau eraill.

Gallai hyn gynnwys:

- Gweithdai, trafodaethau panel a sesiynau bord gron
- Digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, e.e. gwyliau ac arddangosfeydd
- Cynadleddau a symposia
- Hyfforddiant

Gall eich digwyddiad gael ei gynnal ar-lein neu wyneb yn wyneb. At ddibenion hygyrchedd, rydym yn annog digwyddiadau hybrid lle bo hynny'n briodol, i ehangu hygyrchedd a chynulleidfa'r digwyddiadau sydd yn cael eu cefnogi.

Dim ond ar gyfer digwyddiadau sy'n cynnwys cyfranogwyr y tu allan i'ch sefydliad eich hun y bydd cyllid ar gael.

Peidiwch â hysbysebu neu wahodd pobl i'ch digwyddiad cyn gwneud cais am gefnogaeth gan CDdC neu cyn derbyn y gefnogaeth honno. Bydd hyn yn sicrhau y gellir cynnwys logo'r Gymdeithas ar ddeunyddiau hyrwyddo. Os ydych chi eisoes wedi dechrau hyrwyddo'r digwyddiad, eglurwch hyn yn eich cais, a rhowch wybod i ni sut y byddwch yn sicrhau bod cefnogaeth CDdC yn cael ei chydabod yn llawn yn ystod y digwyddiad.

4. Mathau o gefnogaeth

Mae cefnogaeth digwyddiadau Cymdeithas Ddysgedig Cymru (CDdC) yn disgyn i'r categorïau canlynol. Gallwch nodi pa fath o gefnogaeth rydych yn gwneud cais amdano pan rydych yn llenwi'r ffurflen berthnasol. Gellir defnyddio'r Ffurflen Cefnogaeth Digwyddiadau i wneud cais am unrhyw un o'r mathau hyn o gefnogaeth, ac mae dau ddyddiad cau ar gyfer ceisiadau bob blwyddyn. Gellir defnyddio'r Ffurflen Hyrwyddo YN UNIG i wneud cais am gefnogaeth hyrwyddo, a gellir ei chyflwyno ar unrhyw adeg.

- a) **Cyllid** Gall ymgeiswyr wneud cais am rhwng £250 a £1,000 fesul digwyddiad. Byddwn yn ceisio dosbarthu cyllid ar draws ystod o bynciau a meysydd gwahanol. Gallwch wneud cais am gyllid CDdC hyd yn oed os yw eich digwyddiad eisoes yn derbyn cyllid craidd neu grant o ffynonellau eraill.
- b) **Hyrwyddo** Gallwn hyrwyddo digwyddiadau â chefnogaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol, bwletin y Cymrodyr, ein gwefan a thrwy ein cylchlythyr allanol, (fel y bo'n briodol). Gallwn hefyd rannu recordiadau, lluniau a sgriptiau ar ôl y digwyddiad os yw hynny'n berthnasol. Os ydych yn gwneud cais am gefnogaeth hyrwyddo YN UNIG, mae ffurflen gais fyrrach y gallwch ei chwblhau.

Mae'r ddau fath canlynol o gefnogaeth hefyd ar gael mewn rhai amgylchiadau. Wrth lenwi'r Ffurflen Gais 'Cefnogaeth Digwyddiadau', esboniwch yn glir pam rydych chi angen y gefnogaeth ychwanegol hon.

- c) **Cynnal digwyddiadau ar-lein**
Mae gennym becyn Zoom yr ydym yn talu amdano, a byddwn yn gallu helpu partneriaid i gynnal digwyddiadau os nad ydynt yn gallu gwneud hynny eu hunain.
- d) **Cefnogaeth gan staff**
Mewn rhai achosion, byddwn yn cynnig cefnogaeth ychwanegol ar gyfer digwyddiadau sy'n gwneud cyfraniad arbennig o gryf at ein blaenoriaethau strategol. Yn dibynnu ar beth sy'n briodol ar gyfer y digwyddiad unigol, gallai hyn gynnwys cefnogaeth mewn perthynas â chynllunio, staffio, adrodd neu waith polisi cysylltiedig.

4. Meini prawf asesu

Rhaid i bob cais nodi sut y bydd y gweithgaredd arfaethedig yn bodloni'r meini prawf canlynol.

Bydd hyn yn cael ei gasglu drwy ffurflen gais ar-lein, lle byddwn yn gofyn am ymateb byr i bob un o'r meini prawf isod.

- **Cenhadaeth ac Amcanion CDdC** – Dangoswch sut y bydd eich digwyddiad yn cefnogi ein cenhadaeth ac o leiaf un o'n hamcanion strategol.
- **Hygyrchedd** – Dangoswch sut y bydd eich digwyddiad yn hygyrch – ac yn gwahodd, annog a chroesawu pawb. Gall hyn gynnwys cyflwyno'r pwnc mewn ffordd briodol, ei hyrwyddo drwy amrywiaeth o sianeli, defnyddio dulliau cyfranogol yn ystod y digwyddiad, neu ofyn am ofynion mynediad fel mynediad corfforol neu adnoddau mewn print bras.
- **Amrywiaeth** – Os bydd gan eich digwyddiad siaradwyr neu banelwyr, dylech fynd ati'n weithredol i chwilio am ystod amrywiol o bobl. Fel arfer, disgwylir i baneli fod â chynrychiolaeth gytbwys o ran rhywedd o leiaf, ac i ddarlithoedd unigol gael eu cadeirio gan rywun o rywedd gwahanol i'r siaradwr.
- **Effaith** – Dywedwch wrthym sut rydych yn bwriadu gwneud y mwyaf o effaith y digwyddiad ar eich cynulleidfa, partneriaid neu gymuned leol, a sut y byddwch yn mesur yr effaith honno (er enghraifft drwy arolygon, ffurflenni adborth neu ddata demograffig).
- **Y Cyd-destun Cymreig** – Dylai eich digwyddiad gyfrannu'n glir at hyrwyddo a datblygu cymuned ymchwil ac arloesi Cymru.

5. Eithriadau

Nid ydy'r canlynol yn gymwys i dderbyn cefnogaeth:

- Digwyddiadau sy'n cynnwys un sefydliad yn unig, neu un SAU (Sefydliad Addysg Uwch)
- Digwyddiadau neu leoliadau gwleidyddol
- Digwyddiadau neu leoliadau y gellir eu hystyried fel bod yn hyrwyddo athrawiaeth grefyddol.
- Digwyddiadau neu leoliadau y gallai CDdC eu hystyried yn dramgwyddus neu'n ddifennol.
- Cyllid ôl-weithredol ar gyfer digwyddiadau sydd eisoes wedi digwydd.
- Costau craidd neu gostau ystadau/anuniongyrchol.
- Prynu alcohol ar gyfer digwyddiadau.
- Offer swyddfa a gliniaduron, neu unrhyw offer nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â chynnal y digwyddiad.
- Ffioedd neu honoraria i bobl sydd eisoes mewn cyflogaeth â thâl i gyflawni gweithgareddau y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt eu cyflawni fel rhan o'u dyletswyddau arferol.
- Costau seilwaith neu adeiladau.
- Mynychu digwyddiadau sydd eisoes wedi'u trefnu.
- Treuliau a achoswyd wrth gyflwyno'r cais.
- Cyrsiau academiaidd fel graddau Meistr neu PhD, a ffioedd dysgu eraill.
- Ceisiadau sy'n gwrthdaro â pholisïau, amcanion elusennol neu gyfraith elusennau CDdC.

6. Cyfres o ddigwyddiadau (cyllid yn unig)

- Rydym yn cydnabod y gall rhai ceisiadau am gyllid ymwneud â gweithgareddau sydd yn cael eu cynllunio'n flynyddol neu dros nifer o flynyddoedd. Bydd gofyn i'r digwyddiadau hyn ddarparu tystiolaeth o'r rheswm dros geisio cyllid neu gefnogaeth barhaus.
- Gall CDdC gytuno i ariannu'r digwyddiad cyntaf yn y gyfres ac yna, gofyn i'r ymgeiswyr wneud cais eto yn y dyfodol ar gyfer y digwyddiadau dilynol.
- Os bydd CDdC yn cytuno i ariannu cyfres o ddigwyddiadau, bydd yn egluro'n glir unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r cyllid.
- Bydd cytundeb ffurfiol yn cael ei lunio rhwng CDdC a'r ymgeiswyr llwyddiannus yn amlinellu'r broses hon.

7. Prosesu ceisiadau

Gallwch gwblhau un o ddwy ffurflen:

1. Ffurflen hyrwyddo YN UNIG
2. Cefnogaeth digwyddiadau (gall y ffurflen hon gynnwys ceisiadau am bob math o gefnogaeth a restrir, gan gynnwys cyllid)

a) Cyflwyno a derbyn cais

Ceisiadau hyrwyddo yn unig:

- Ar gyfer ceisiadau sy'n gofyn am gefnogaeth CDdC o ran hyrwyddo digwyddiad a chaniatâd i ddefnyddio logo CDdC i'w gefnogi, gallwch gwblhau'r ffurflen Hyrwyddo YN UNIG. Nid oes gan y ffurflen hon derfynau amser, a gellir ei chyflwyno ar unrhyw adeg.
- Ar ôl derbyn cais, bydd CDdC yn cydnabod ei fod wedi'i dderbyn, ac yn cadarnhau'r dyddiad erbyn pryd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud. Ein nod yw rhoi gwybod i bob ymgeisydd am ganlyniad y penderfyniad ar gyfer ceisiadau Hyrwyddo YN UNIG o fewn 4 wythnos ar ôl iddynt gael eu cyflwyno.

Ceisiadau Cefnogaeth Digwyddiadau - (ar gyfer pob math o gefnogaeth a restrir, gan gynnwys cyllid)):

- Bydd Cefnogaeth Digwyddiadau i Gymrodyr CDdC yn derbyn ceisiadau am gefnogaeth ddwywaith y flwyddyn. Bydd y dyddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi'n glir ar wefan CDdC.
- Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn hanner nos ar y dyddiad cau a restrir.
- Rhaid gwneud ceisiadau drwy Ffurflen Cefnogaeth Digwyddiadau i Gymrodyr CDdC, sydd ar gael ar wefan CDdC.
- Ar ôl derbyn cais, bydd CDdC yn anfon cydnabyddiaeth ac yn cadarnhau erbyn pryd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud. Ein nod yw rhoi gwybod i bob ymgeisydd am ganlyniad y penderfyniad o fewn chwe wythnos ar ôl y dyddiad cau.

Rhaid llenwi pob cwestiwn perthnasol ar y ffurflen gais yn llawn er mwyn i'r cais gael ei ystyried am gefnogaeth.

Peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd cyllid neu gefnogaeth gan CDdC ar gael, nac ychwaith cytuno i drefnu digwyddiadau ar y sail honno, cyn cael clywed yn ffurfiol mai dyma'r achos. Ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw gostau a achosir cyn i gytundeb gael ei wneud.

b) Ystyried cais

- Bydd ceisiadau'n cael eu sgorio yn erbyn y meini prawf asesu a restrir uchod:
 - Cenhadaeth ac Amcanion CDdC
 - Hygyrchedd
 - Amrywiaeth
 - Effaith
 - Y cyd-destun Cymreig

Ceisiadau Hyrwyddo YN UNIG:

- Bydd asesiadau'n cael eu cynnal gan staff CDdC, a bydd penderfyniadau'n cael eu cyfathrebu i'r ymgeisydd o fewn pedair wythnos ar ôl y dyddiad cau.

Ceisiadau Cefnogaeth Digwyddiadau:

- Bydd staff CDdC yn cynnal asesiad cychwynnol o'r ceisiadau.
- Bydd ceisiadau'n cael eu rhannu gyda Phanel Adolygu Cefnogaeth Digwyddiadau i Gymrodwr CDdC, a fydd yn eu hasesu yn erbyn cwestiynau a meini prawf y cais.
- Bydd y panel yn gwneud penderfyniad ar sail yr wybodaeth a ddarperir, ac yn hysbysu staff CDdC o'r canlyniad er mwyn ei gyfathrebu i'r ymgeiswyr.
- Gall y panel ofyn am wybodaeth ychwanegol gan ymgeiswyr i gefnogi eu penderfyniad. Bydd unrhyw geisiadau o'r fath yn cael eu cyfathrebu drwy staff CDdC.
- Mae gan CDdC y disgresiwn i gynnig cyllid llawn neu rannol i ymgeiswyr llwyddiannus. Gall mathau eraill o gefnogaeth ddal i gael eu cynnig, hyd yn oed os nad cyllid yw hynny.
- Mewn amgylchiadau eithriadol, os gwneir cais am fwy na £1,000, bydd y cais yn cael ei gyflwyno i'r Weithrediaeth ynghyd ag argymhelliad y Panel Adolygu. Os bydd y Weithrediaeth yn cymeradwyo'r cais mewn egwyddor, bydd yn cael ei gyfeirio wedyn at y Pwyllgor Cyllid i ystyried unrhyw newidiadau arfaethedig i'r gyllideb flynyddol. Yn yr amgylchiadau hyn, rydym yn cadw'r hawl i ymestyn yr amserlen ar gyfer gwneud penderfyniad. Rydym yn argymhell eich bod yn trafod cynnig o'r fath gyda staff CDdC cyn cyflwyno cais.
- Bydd aelodau o'r panel yn rhoi gwybod i'r Cadeirydd os byddant yn nodi unrhyw wrthdaro buddiannau. Os oes gan y Cadeirydd wrthdaro buddiannau, bydd yn rhoi gwybod i'r staff.
- Ni fydd unrhyw aelod sydd yn destun gwrthdaro buddiannau yn cymryd rhan yn y drafodaeth, yn dylanwadu ar y penderfyniad nac yn pleidleisio ar y cais perthnasol, a rhaid iddo hefyd adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

c) Rhoi gwybod i'r ymgeisydd

- Ein nod yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am ganlyniad eu cais o fewn 4 wythnos ar ôl ei gyflwyno ar gyfer cefnogaeth HYRWYDDO, ac o fewn 6 wythnos i'r dyddiad cau ar gyfer cefnogaeth CYLLID. Fodd bynnag, gall hyn gymryd mwy o amser os oes angen trafodaeth fwy manwl. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod os bydd yr amserlen yn debygol o fynd y tu hwnt i'r cyfnodau hyn.
- Os penderfynir cefnogi'r digwyddiad, bydd yr ymgeisydd yn derbyn e-bost safonol yn cadarnhau'r canlyniad, yn amlinellu gofynion y grant, ac yn cynnwys deunyddiau hyrwyddo perthnasol CDdC.
- Os penderfynir peidio â chefnogi'r digwyddiad, bydd yr ymgeisydd yn derbyn e-bost safonol yn egluro'r canlyniad. Mae penderfyniad CDdC yn derfynol.

8. Derbyn y cynnig o gefnogaeth

- Rhaid i ymgeiswyr ymateb i unrhyw gynnig o gefnogaeth drwy ei dderbyn neu ei wrthod yn ysgrifenedig o fewn pythefnos ar ôl derbyn y cynnig.
- Os nad ydy eich digwyddiad yn gallu cael ei gynnal mwyach, rhaid i chi hysbysu CDdC o fewn pythefnos ar ôl i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud, a dychwelyd unrhyw gyllid a dalwyd o fewn pedair wythnos ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud.

9. Cyfrifoldebau ymgeiswyr llwyddiannus

- Rhaid i chi gynnal eich digwyddiad o fewn 12 mis ar ôl derbyn cadarnhad o gefnogaeth gan CDdC.
- Bydd unrhyw ddigwyddiad a gynigir i gael ei gynnal fwy na 12 mis ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yn destun disgresiwn Panel Adolygu Cefnogaeth Digwyddiadau i Gymrodyr CDdC a Swyddog Cyllid CDdC.
- Rhaid cydnabod cefnogaeth CDdC ym mhob deunydd cyhoeddusrwydd, gan gynnwys gwahoddiadau, ac yn ystod y digwyddiad ei hun (er enghraifft drwy ddefnyddio logos a geiriau o ddiolch ar sleidiau neu yn sylwadau agoriadol y cadeirydd).
- Darparu cynnwys i'r Gymdeithas y gallwn ei ddefnyddio i helpu i hyrwyddo'r digwyddiad (lle bo'n berthnasol) o leiaf 6 wythnos cyn y digwyddiad.
- Rhaid cydymffurfio â safonau'r Gymraeg eich sefydliad.
- Rhaid gwahodd o leiaf un cynrychiolydd CDdC i'r digwyddiad, gyda'r disgwyliad y bydd gan ein Llywydd neu ein Prif Swyddog Gweithredol yr hawl i wrthod neu dderbyn y gwahoddiad yn gyntaf.
- Darparu cynnwys i'r Gymdeithas y gallwn ei ddefnyddio ar ôl y digwyddiad (er enghraifft lluniau, cynnwys i'w roi ar y cyfryngau cymdeithasol, adroddiadau neu recordiadau), ynghyd â'r caniatâd priodol i ni eu rhannu a'u hyrwyddo.
- Lle bo'n bosibl, darparu data perthnasol am effaith y digwyddiad ar ôl iddo gael ei gynnal.
- Os ydych chi wedi cael cyllid tuag at eich digwyddiad, rydym yn disgwyl derbyn anfoneb o fewn tri mis ar ôl dyddiad y digwyddiad. Ni fydd unrhyw hawliadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu talu. Yn ogystal, gofynnir i chi ddarparu diweddariad byr am y digwyddiad a rhannu lluniau neu ddata perthnasol lle bo'n briodol. Os bydd cost y gweithgaredd yn llai na'r hyn a ragwelwyd, rydym yn disgwyl i'r anfoneb adlewyrchu hynny.
- Os nad yw eich sefydliad neu brosiect yn gallu talu'r costau ymlaen llaw a'u hawlio'n ôl yn ddiweddarach, nodwch hyn yn eich cais, a chysylltwch i drafod opsiynau eraill posibl.